



Esgobaeth
Bangor
The Diocese
of Bangor



PECYN CAIS
Cyfarwyddwr
Addysg

Llythyr at ymgeiswyr

Annwyl Ymgeisydd,

Mae ein hysgolion eglwysig yn rhan bwysig o ddarpariaeth addysg yn Esgobaeth Bangor, gan gyfrannu'n sylweddol at eu cymunedau lleol. Maent yn ymrwymedig i greu amgylcheddau gofalggar a chynhwysol lle gall pob plentyn a phob oedolyn ffynnu.



Mae gan yr ysgolion hyn werthoedd clir sy'n deillio o'u sylfaen Gristnogol, ac sy'n llywio eu gwaith bob dydd. Mae hyn yn golygu bod unigolion yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi i ddatblygu'n llawn – yn academiaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol. Mae'r ysgolion yn rhoi pwyslais ar ddatblygiad eang, gan gynnwys lles, perthnasoedd cadarnhaol a synnwyr o gyfrifoldeb, ochr yn ochr â chyrhaeddiad academiaidd.

Mae Esgobaeth Bangor yn awyddus i benodi Cyfarwyddwr Addysg a fydd yn darparu arweinyddiaeth gadarn a chlr i'r gwaith hwn. Mae hwn yn gyfnod o ail-ganolbwyntio ac adeiladu ar gryfderau presennol, gyda chyfle i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach mewn ymateb i anghenion newidiol.

Bydd y rôl yn cynnwys goruchwyllo teulu o 16 ysgol gynradd, mewn cymunedau gwledig a threfol. Mae'r mwyafrif yn ysgolion gwirfoddol a reolir, gydag un ysgol wirfoddol a gynorthwyir. Mae'r ysgolion hyn yn darparu addysg o ansawdd uchel, ond hefyd yn meddu ar hunaniaeth glir sy'n siapia eu diwylliant a'u ffordd o weithio.

Rydym yn croesawu eich diddordeb yn y cyfle hwn. Mae ein hysgolion yn anelu at y safonau uchaf ym mhopeth a wnânt, gan weithio o fewn fframwaith gwerthoedd cryf fel bod pob dysgwr yn cael y cyfle i lwyddo. Byddwch yn ymuno â thîm cefnogol ar draws yr esgobaeth a'r Eglwys yng Nghymru, a fydd yn eich galluogi i gyflawni'n effeithiol yn y rôl hon.

Yn gywir,
Joanna Thomas

Esgobaeth Bangor

Mae Esgobaeth Bangor yn gymuned Gristnogol fywiog gyda hanes cyfoethog sy'n ymestyn yn ôl i'r bumed ganrif. Mae ei gwreiddiau yn nhraddodiadau'r seintiau Celtaidd cynnar – gan gynnwys Deiniol, Cybi, Seiriol, Tudwen a Madryn – ac mae'r dreftadaeth hon yn parhau i siapio hunaniaeth y rhanbarth heddiw, gan gael ei hadlewyrchu yn enwau eglwysi, trefi a phentrefi ar draws yr esgobaeth.

Er bod ein cenhadaeth yn parhau'n gyson, mae'r cyd-destun cyfoes yn cyflwyno cyfleoedd a heriau newydd. Mewn ymateb, rydym wedi datblygu dull clir a bwriadol o symud ymlaen, wedi'i seilio ar egwyddorion a blaenoriaethau strategol sy'n llywio ein gwaith ar draws yr esgobaeth.


Wrth wraidd hyn mae tri phrif ffocws sy'n siapio ein bywyd a'n gwaith:

- Addoli Duw
- Tyfu'r Eglwys
- Gwasanaethu'r byd

Mae'r esgobaeth yn cwmpasu ardal eang ac amrywiol – o Gaergybi ar Ynys Môn i Lanidloes ym Mhowys, ac o Aberdaron ym Mhen Llŷn i Landudno ar arfordir y gogledd. Mae'r dirwedd yn cynnwys cymysgedd o gymunedau trefol a gwledig, gyda llawer o ardaloedd arfordirol a mynyddig eiconig, gan gynnwys Yr Wyddfa a Chadair Idris.

Mae twristiaeth yn rhan allweddol o economi'r rhanbarth, gyda nifer sylweddol o ymwelwyr a pherchnogion ail gartrefi ar draws sawl Ardal Weinidogaeth. Ar yr un pryd, mae llawer o'r esgobaeth yn cynnwys cymunedau gwledig, gwasgaredig, lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw a naturiol i nifer fawr o bobl.

Mae'r cyd-destun hwn yn creu amgylchedd unigryw ar gyfer gwasanaeth a datblygiad, ac yn galw am arweinyddiaeth sy'n sensitif i ddiwylliant, iaith a chymunedau lleol, tra'n gallu ymateb yn strategol i heriau'r dyfodol.



Hanes Ysgolion Eglwysig

Sefydlwyd y rhan fwyaf o ysgolion eglwysig yn yr esgobaeth o dan ymddiriedolaethau, gyda'r nod o ddarparu addysg wedi'i seilio ar egwyddorion a gwerthoedd Cristnogol. Mae'r sylfaen hon yn parhau i fod yn ganolog i'w hunaniaeth heddiw.

Ym 1811 sefydlwyd y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Hyrwyddo Addysg Grefyddol i gefnogi ysgolion eglwysig. Mae'r corff hwn yn parhau i chwarae rôl bwysig, gan ddarparu arweiniad ac adnoddau i ysgolion ac esgobaethau yng Nghymru a Lloegr.

Yn dilyn datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru ym 1920, daeth ysgolion eglwysig yng Nghymru yn rhan o'r Eglwys yng Nghymru, ond parhaodd y berthynas â'r Gymdeithas Genedlaethol. Mae'r cyd-destun hanesyddol hwn yn parhau i lywio natur a diben ysgolion eglwysig heddiw.

Mae Deddf Addysg 1944 yn diffinio'r ddau brif fath o ysgol eglwysig: ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion gwirfoddol a reolir.

Heddiw, mae ysgolion eglwysig yn rhan bwysig o'r system addysg yng Nghymru, gan ddarparu addysg o safon uchel i'w cymunedau lleol. Maent yn cyfuno rhagoriaeth academiaidd â set glir o werthoedd, gan greu amgylcheddau lle gall pob dysgwr ddatblygu a llwyddo.



Swydd Ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol, Esgobaeth Bangor
Yn gyfrifol i: Ysgrifennydd yr Esgobaeth
Lleoliad: Tŷ Deiniol, Bangor

Diben y Swydd

Darparu arweinyddiaeth strategol a phroffesiynol ar gyfer addysg eglwysig ar draws yr Esgobaeth, gan sicrhau darpariaeth addysg o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu gwerthoedd Cristnogol ac yn cyfrannu at genhadaeth ehangach yr Eglwys yng Nghymru.

Bydd y rôl yn gyfrifol am gefnogi Ysgrifennydd yr Esgobaeth mewn arweinyddiaeth weithredol a strategol, gan gynnwys arweinyddiaeth dros ddiogelu, a chyfrannu at gryfhau llywodraethu, risg a chydymffurfiaeth ar draws yr esgobaeth.

Bydd hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb am arwain a rheoli staff a chyllid o fewn y gwasanaeth addysg esgobaethol.

Perthnasoedd Gweithio Allweddol

- Yr Archesgob a'r Esgobion
- Ysgrifennydd yr Esgobaeth
- Bwrdd Addysg Statudol Esgobaethol
- Penaethiaid a Llywodraethwyr
- Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth
- Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru ac Estyn
- Swyddfa Addysg Daleithiol
- Tîm Tŷ Deiniol

Sylw Cyffredinol

Mae hon yn rôl arweinyddiaeth uwch sy'n ymestyn y tu hwnt i addysg yn unig. Bydd y person llwyddiannus yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi cyfeiriad strategol yr esgobaeth, gan gyfuno arweinyddiaeth addysgol gyda chyfrifoldebau ehangach ym maes diogelu, llywodraethu a rheolaeth weithredol.

Prif Gyfrifoldebau

Arweinyddiaeth Strategol

- Darparu arweinyddiaeth glir ar gyfer addysg eglwysig ar draws yr esgobaeth
- Datblygu a chyfleu gweledigaeth sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r esgobaeth a'r Eglwys yng Nghymru
- Cyfrannu fel aelod o uwch dîm arweinyddiaeth at gyfeiriad strategol ehangach yr esgobaeth.

Cefnogi Ysgrifennydd yr Esgobaeth

- Cefnogi'r Ysgrifennydd yr Esgobaeth mewn arweinyddiaeth weithredol a strategol
- Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu blaenoriaethau corfforaethol, gan gynnwys llywodraethiant, risg a chydymffurfiaeth
- Dirprwyo dros yr Ysgrifennydd yn ôl yr angen mewn cyfarfodydd a fforymau perthnasol
- Sicrhau cydweithio effeithiol ar draws timau esgobaethol

Diogelu

- Arwain yn strategol ar ddiogelu ar draws yr esgobaeth
- Sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant yn cydymffurfio â gofynion statudol a pholisïau'r Eglwys yng Nghymru
- Cefnogi ysgolion eglwysig a'r esgobaeth i weithredu o fewn gweithdrefnau diogelu'r Awdurdod Lleol, gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol Monitro cydymffurfiaeth, adnabod risgiau a chryfhau arferion
- Cyngori'r Ysgrifennydd yr Esgobaeth, yr Esgobion a'r ymddiriedolwyr ar faterion diogelu

Safonau a Gwella Ysgolion

- Cefnogi ysgolion eglwysig i sicrhau safonau uchel a gwelliant parhaus
 - Gweithio gydag Awdurdodau Lleol, Estyn a Llywodraeth Cymru i sicrhau cefnogaeth ac ymyrraeth briodol
 - Sicrhau bod ysgolion yn ymgysylltu'n effeithiol â'r fframwaith Arolygu Adran
- 50

- Sicrhau darpariaeth hyfforddiant a datblygiad proffesiynol o safon uchel ar gyfer penaethiaid, llywodraethwyr a staff perthnasol
- Pennu blaenoriaethau hyfforddi yn seiliedig ar anghenion ysgolion a blaenoriaethau'r esgobaeth
- Goruchwyllo datblygiad mewn meysydd allweddol megis ethos, addoli ar y cyd, a'r Cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)
- Gweithio gyda phartneriaid i gomisiynu neu ddatblygu darpariaeth hyfforddi briodol
- Gwerthuso effaith hyfforddiant i sicrhau gwelliant parhaus

Llywodraethiant a Chydymffurfiaeth

- Sicrhau bod holl ofynion statudol a chyfreithiol yn cael eu bodloni
- Cyngori a chefnogi'r Bwrdd Addysg Statudol Esgobaethol
- Goruchwyllo penodi a chefnogi Llywodraethwyr Sylfaenol
- Sicrhau bod Offerynnau Llywodraethiant yn gyfredol ac yn cydymffurfio
- Cyngori ar faterion cyfreithiol, gweinyddol a deddfwriaethol perthnasol

Arwain a Rheoli Staff a Chyllid

- Arwain, rheoli a datblygu staff o fewn y gwasanaeth addysg esgobaethol
- Sicrhau disgwyliadau clir o ran perfformiad, atebolrwydd a safonau gwaith
- Cynnal trefniadau rheoli perfformiad effeithiol
- Cefnogi datblygiad proffesiynol staff a meithrin diwylliant o welliant parhaus
- Rheoli cyllideb y gwasanaeth addysg esgobaethol yn effeithiol
- Goruchwyllo a rheoli cronfeydd a grantiau, gan sicrhau cydymffurfiaeth a defnydd priodol

Cenhadaeth ac Ymgysylltiad

- Cryfhau'r berthynas rhwng ysgolion a bywyd yr esgobaeth
- Galluogi cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mywyd yr Eglwys
- Gweithio gydag Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth i ddatblygu cysylltiadau cryf ag ysgolion
- Cynghori'r Esgob ar faterion addysgol

Partneriaethau a Chynrychiolaeth

- Datblygu a chynnal perthnasoedd cryf ag Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, Estyn a phartneriaid eraill
- Cynrychioli'r esgobaeth ar lefel ranbarthol a chenedlaethol
- Gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Addysg Daleithiol a chydweithwyr eraill

Derbyniadau ac Adnoddau Dynol

- Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau derbyn mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr
- Cynghori ar apeliadau derbyn a gwahardd
- Cefnogi cyrff llywodraethiant mewn penodiadau penaethiaid

Materion Eiddo ac Ysgolion

- Goruchwylio rhaglenni cynnal a chadw a chyfalaf (CRAMP)
- Gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru ar drefniadaeth ysgolion

Gofynion Proffesiynol

- Cadw'n gyfredol gyda deddfwriaeth a datblygiadau addysgol
- Cynghori ar newidiadau polisi ac ymateb yn strategol
- Cefnogi gweithredu adroddiadau ac argymhellion ar draws ysgolion

Manyleb Person

Meini Prawf Hanfodol

Y Gymraeg

Mae rhuglder yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu gweithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig. Disgwylir y gallu i baratoi a chyflwyno dogfennau o safon uchel yn y Gymraeg (gan gynnwys adroddiadau ffurfiol, polisïau a chyfathrebiadau proffesiynol), ynghyd â'r gallu i weithredu'n naturiol mewn cyd-destunau dwyieithog ar draws yr esgobaeth.

Profiad ac Arweinyddiaeth

- Profiad sylweddol o arweinyddiaeth ar lefel uwch mewn addysg, e.e. fel pennaeth neu ddirprwy bennaeth
- Profiad o arwain a rheoli staff, gan gynnwys gosod disgwyliadau clir a rheoli perfformiad
- Profiad o arwain newid a gwelliant sefydliadol
- Profiad o weithio ar draws sefydliadau neu gyda phartneriaid allanol (e.e. Awdurdodau Lleol, Estyn)

Gwybodaeth a Dealltwriaeth

- Dealltwriaeth gadarn o'r system addysg yng Nghymru, gan gynnwys rolau Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru
- Dealltwriaeth o lywodraethu ysgolion a rôl cyrff llywodraethu
- Gwybodaeth o faterion diogelu a'r fframwaith statudol perthnasol
- Dealltwriaeth o brosesau arolygu, gan gynnwys Arolygu Adran 50
- Dealltwriaeth o rôl ac ethos ysgolion eglwysig

Sgiliau ac Ymagwedd

- Sgiliau arweinyddiaeth cryf gyda'r gallu i ddylanwadu, herio a chefnogi ar lefel uwch
- Y gallu i feddwl yn strategol a gweithredu'n weithredol
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Y gallu i adeiladu a chynnal perthnasoedd effeithiol gyda rhanddeiliaid amrywiol
- Y gallu i reoli blaenoriaethau cymhleth a gwneud penderfyniadau cadarn
- Ymrwymiad i safonau uchel a gwelliant parhaus

Rheoli a Chyllid

- Profiad o reoli cyllidebau neu adnoddau ariannol
- Dealltwriaeth o atebolrwydd ariannol a'r angen am reolaeth gadarn

Gwerthoedd a Phersonoliaeth

- Y gallu i weithio o fewn fframwaith gwerthoedd Cristnogol
- Ymrwymiad i lesiant plant a phobl ifanc
- Uniondeb, proffesiynoldeb a gallu i ennill hyder eraill
- Ymagwedd gydweithredol ond hyderus wrth wneud penderfyniadau

Meini Prawf Dymunol

- Profiad o weithio mewn neu gyda ysgolion eglwysig
- Profiad o weithio ar lefel strategol neu ranbarthol / genedlaethol
- Profiad o weithio gyda chyrff llywodraethu neu ymddiriedolwyr
- Profiad o arwain ar ddiogelu ar lefel sefydliadol

Gofynion Eraill

- Parodrwydd i deithio ar draws yr esgobaeth ac yn genedlaethol
- Y gallu i weithio'n hyblyg yn ôl gofynion y rôl

Prif Delerau ac Amodau

Oriau gwaith

Yr oriau swyddfa craidd yw 35 awr yr wythnos.

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd fynychu cyfarfodydd y tu allan i oriau gwaith arferol o bryd i'w gilydd, yn ogystal â theithio ar draws Cymru (ac o bosibl ymhellach) fel rhan o ofynion y rôl.

Darperir amser i ffwrdd yn lle (TOIL) ar gyfer oriau ychwanegol a weithir, yn unol â pholisïau'r esgobaeth.

Cyflog

Cyflog cychwynnol o £57,200 - £62,400, yn dibynnu ar brofiad, gyda Chynllun Pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig

Pensiwn

Cynllun Pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig ar gael. Bydd y cyflogwr yn cyfrannu 15% o gyflog pensiynadwy y cyflogai a gall y cyflogai ddewis gwneud cyfraniad gwirfoddol ychwanegol o unrhyw gyfran o'i gyflog pensiynadwy.

Hawl i Wyliau

28 diwrnod mewn blwyddyn galendr ynghyd â gwyliau banc. Mae'r flwyddyn wyliau yn rhedeg o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr

Lleoliad

Tŷ Deiniol, Bangor

Treuliau

Bydd yr holl gostau gwaith rhesymol yn cael eu talu ar y cyfraddau esgobaethol y cytunwyd arnynt

Cyfnod Prawf

Bydd y swydd hon yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf o 6 mis yn foddhaol.

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Ceisiadau

Rhaid i ni dderbyn ceisiadau erbyn 12yp ar Dydd Llun 20 Ebrill. Dylech gynnwys copi o'ch CV, gyda llythyr eglurhaol dim mwy na dwy ochr A4 yn disgrifio'r hyn sy'n eich denu i'r rôl hon, eich profiad, a sut mae'n berthnasol i'r cyfleoedd a'r heriau a gyflwynir gan y swydd hon. Rhowch enw dau ganolwr i ni hefyd.

E-bostiwch eich cais i Joanna Thomas, Ysgrifennydd Esgobaethol - joannathomas@churchinwales.org.uk.

Am sgwrs anffurfiol am yr apwyntiad: Joanna Thomas, 07951 852255

Rhestr fer

Er mwyn sicrhau tegwch y broses ddethol, bydd y rhestr fer yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwch yn eich cais yn unig ac ni wneir rhagdybiaethau ynghylch eich profiad a'ch sgiliau. Byddwn yn chwilio am dystiolaeth amlwg eich bod yn bodloni'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod am ganlyniadau'r rhestr fer.

Cyfweliad

Bydd hwn yn cael ei gynnal ym Mangor ar Ddydd Llun 27 Ebrill.

Bydd rhagor o fanylion am y broses ddethol yn cael eu cyfleu ar yr adeg y gwahoddir ymgeiswyr i gyfweliad. Bydd y penodiad yn amodol ar eirdaon boddhaol a datgeliad DBS uwch. Byddwn yn cysylltu â chanolwyr cyn y cyfweliad, felly rhowch wybod i ni os nad ydych yn dymuno i ni gysylltu â'ch canolwyr.

